

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Famolaeth Ysbyty Gwynedd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 18-20 Chwefror 2025

Dyddiad cyhoeddi: 05 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	28
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	30
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	35

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Uned Famolaeth (gan gynnwys Ward Llifton) yn Ysbyty Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 18, 19 a 20 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (dwy fydwraig gofrestredig ac obstetregydd ymgynghorol) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd menywod a'u teuluoedd i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 56 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod a'u teuluoedd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a oedd wedi'i deilwra atynt ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd bron pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a ddarparwyd iddynt, y staff ac amgylchedd yr uned famolaeth. Gwelsom fod y staff yn darparu gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf, ac y gallai menywod yn y cyfnod esgor gael meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol. Fodd bynnag, roedd rhai heriau yn ymwneud â gofal amserol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob menyw yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg a'u risgiau a'u manteision cyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth ganddi
- Cynnig gwasanaethau cyfieithu i'r menywod hynny y mae Cymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt
- Llwybr gwell i fenywod y gall fod angen iddynt ddefnyddio ail theatr obstetrig gynorthwyol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd menywod a'u teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da
- Cynnig rhagweithiol o ofal drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwybodaeth hybu iechyd gynhwysfawr ar gael drwy'r Hwb Dechrau Gorau
- Cymorth profedigaeth a Chlinig Enfys
- Gwasanaeth myfyrio ar enedigaethau, sy'n rhoi cyfle i fenywod fyfyrrio ar eu profiadau
- Ystafelloedd hygyrch, coridorau llydan ac amgylchedd croesawgar.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth. Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau.

Cadarnhaodd y cofnodion cleifion a welsom fod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion. Roedd rhai meysydd yr oedd angen eu gwella mewn perthynas â dogfennau a phrosesau gwneud penderfyniadau yn ymwneud â gofal obstetrig yn ystod genedigaeth, uwchgyfeirio cleifion a defnyddio'r ail theatr obstetrig gynorthwyol, yn ogystal â'r Uned Asesu Obstetrig.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd y trefniadau cyfathrebu na'r trefniadau trosglwyddo mewn perthynas â gofal cynenedigol a gofal yn ystod genedigaeth yn ddigonol er mwyn gallu cynllunio gofal diogel i bob menyw a baban.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob risg yn cael ei chofnodi, ei holrhain a'i lliniaru'n effeithiol ac mewn modd amserol
- Adolygu a gwella'r ail theatr obstetrig gynorthwyol
- Diweddarau'r canllawiau a'r polisiau sy'n ymwneud ag uwchgyfeirio cleifion er mwyn sicrhau bod y staff yn glir ynghylch y defnydd o'r ail theatr
- Adolygu a gwella'r systemau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Obstetrig
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r argymhellion yn y ddogfen Ganllaw ar Sepsis, ac yn gweithredu arnynt
- Gwella'r gallu i gael gafael ar ddogfennau, cyflenwadau meddygol a chyfarpar
- Adolygu cofnodion cleifion sy'n ymwneud â gofal yn ystod genedigaeth er mwyn sicrhau bod penderfyniadau arfer gorau yn cael eu gwneud a'u cofnodi a bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gweithdrefnau diogelu i fenywod a babanod
- Prosesau cadw cofnodion mamolaeth
- Rheoli meddyginiaethau
- Roedd cynllun archwilio clinigol cynhwysfawr ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gyfarfod ag arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaeth mamolaeth a oedd yn cydweithio'n dda. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol a oedd yn ymddangos yn effeithiol ym mhob rhan o'r uned. Bu rhai newidiadau i'r strwythur arwain i gynnwys rolau sydd bellach yn gweithio ar

draws y bwrdd iechyd cyfan, ac mae hyn wedi effeithio ar weladwyedd yr arweinwyr. Gwnaethom nodi bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn isel mewn rhai timau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd lefelau cydymffurfiaeth y staff obstetrig â hyfforddiant gorfodol yn isel, ac o ganlyniad, ni chafodd AGIC sicrwydd bod pob aelod o'r staff a oedd yn darparu gofal obstetrig wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol nac yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a baban roeddent yn gofalu amdanynt

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried yr holl themâu a sylwadau sy'n deillio o'n harolwg staff, ac ymateb iddynt
- Mynd i'r afael â'r polisiâu niferus sydd wedi dyddio
- Gwellu cynrychiolaeth y staff meddygol a'u cynnwys yn fwy wrth adolygu a rheoli digwyddiadau
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o ddigwyddiadau a'r camau gweithredu a bennwyd
- Cynllunio i wellu cyfraddau recriwtio a chadw staff meddygol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Proses adolygu digwyddiadau ddyddiol
- Defnyddio proses canmolïaeth Greatix ar waith ar gyfer y staff
- Menter Gwellu Ansawdd mewn perthynas â chlwyfau toriadau cesaraidd
- Systemau a phrosesau monitro cadarn ar gyfer rheoli'r staff, gan gynnwys hyfforddiant, arfarniadau, absenoldeb oherwydd staff a swyddi gwag.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan fenywod a phobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Ar y cyfan, dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad cadarnhaol, gan ddisgrifio'r gwasanaeth fel gwasanaeth 'da iawn' (9/12) neu 'dda' (1/12) a gwneud sylwadau fel y canlynol:

“Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r tîm am y cymorth a'r gofal rydym wedi eu cael yn ystod ein beichiogrwydd, o'r dechrau i'r diwedd. Rydym wedi cael profiad cadarnhaol iawn ac os byddwn byth yn dod yn ôl, byddwn yn gwybod ein bod mewn dwylo diogel.”

“Mae'r holl fydwragedd wedi bod yn garedig iawn, yn gwneud yn siŵr fy mod i a fy mhartner yn iawn. Rwyf wedi cael gofal da hyd yma.”

“Diolch yn fawr am y cymorth o'r dechrau i'r diwedd. Rydym wedi cael profiad cadarnhaol iawn ac rydym yn gwybod, os byddem byth yn dod yn ôl, y byddem mewn dwylo diogel.”

“Mae'r fydwraig yn sylwgar iawn.....Rwy'n ei gwerthfawrogi'n fawr gan ei bod mor bwyllog, yn hawdd mynd ati ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel.”

Yn ychwanegol at y sylwadau a gafwyd yn yr holiaduron a gwblhawyd, cyfarfu'r tîm arolygu â menywod a'u teuluoedd yn yr uned ar adeg yr arolygiad. Dywedodd pob un ohonynt wrthym eu bod yn hapus, ac roeddent yn canmol lefel y gofal roeddent yn ei gael. Cafwyd canmoliaeth i'r staff a dywedwyd eu bod yn mynd “y tu hwnt i ddisgwyliadau” i gefnogi'r menywod.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r uned, gan gynnwys gwybodaeth am fwydo ar y fron, golchi dwylo a sut i gael

cymorth iechyd meddwl. Roedd yr arwyddion a welwyd yn cadarnhau bod yr uned wedi'i hachredu gan fenter Baby Friendly UNICEF.

Dywedodd y staff wrthym fod cymorth bwydo ar y fron ar gael yn yr uned ynghyd â Chydgyssylltydd Bwydo Babanod, a bod cymorth bwydo ar y fron cyfatebol ar gael ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Edrychwyd ar wybodaeth hybu iechyd yn ystod beichiogrwydd a chyn cenhedlu ar-lein gynhwysfawr i fenywod a theuluoedd yn ardal y bwrdd iechyd fel rhan o'r arolygiad. Roedd y wybodaeth hybu iechyd hon yn cynnwys yr Hwb Dechrau Gorau, a oedd yn rhoi cyngor a chymorth cyn beichiogi hyd at y blynyddoedd cynnar. Roedd y wybodaeth hon ar gael mewn sawl iaith. **Nodwyd bod yr Hwb hwn o wybodaeth am iechyd a llesiant yn arfer da a chanmoladwy.**

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob un o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, a'u teuluoedd, a'r rhai a ymatebodd i'r holiaduron, yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Cadarnhaodd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, yn eu barn nhw.

Clywodd y tîm arolygu bob aelod o'r staff yn bod yn gwrtais ac yn barod i helpu pob menyw ac unigolyn a oedd yn rhoi genedigaeth a'u teuluoedd. Roedd sgysiau am ofal yn cael eu cynnal yn dawel â'r llenni wedi'u cau, ond gellid clywed sgysiau weithiau oherwydd cynllun y baeau.

Gwelsom ofal yn cael ei roi mewn amgylchedd pwylllog, glân, taclus a chroesawgar, a gwelsom y menywod a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd garedig a sensitif drwy gydol yr arolygiad. Arsylwodd y tîm arolygu ar un o rowndiau'r ward mamolaeth lle y gallai'r menywod ofyn cwestiynau a lleisio eu barn.

Roedd ystafell brofedigaeth ar gael ar yr uned i'w defnyddio yn achos marwolaeth yn ystod genedigaeth neu farw-enedigaeth. Roedd yr ystafell hon wedi'i lleoli yn yr uned a arweinir gan fydwragedd ar wahân i ystafelloedd cleifion eraill er mwyn cynnig mwy o breifatrwydd ac urddas i gleifion ar adeg anodd iawn. Roedd yr ystafell ar gael o ganlyniad i ymdrechion codi arian sylweddol y staff, ac roedd yn cynnig amgylchedd cyfforddus a chartrefol, ac roedd Nododd y tîm arolygu nad gwely ysbyty oedd y gwely ac nad oedd ar olwynon, ac nad oedd cyflenwad ocsigen drwy bibell ar gael yn yr ystafell. Felly, pe bai menyw yn sâl, byddai angen iddi gael ei throsglwyddo. **Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg a gwneud yn siŵr bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau y caiff argyfyngau meddygol a**

wynebir gan fenywod sy'n defnyddio'r ystafell brofedigaeth eu rheoli mewn modd amserol.

Gwnaethom gyfarfod â'r fydwraig brofedigaeth arbenigol a gwelsom ei bod yn rhoi cymorth i deuluoedd yn ogystal â staff mewn profedigaeth. Cadarnhaodd y staff fod clinig Enfys, sef gwasanaeth cynenedigol arbenigol, yn cael ei gynnig i fenywod a oedd wedi beichiogi'n ddiweddar ar ôl colli babi yn ystod beichiogrwydd. **Roedd hyn yn arfer canmoladwy.**

Roedd uned a arweinir gan fydwraig ar gael i fenywod a oedd yn bodloni'r meini prawf clinigol i roi genedigaeth mewn amgylchedd llai meddygol. Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd geni a gwelsom eu bod yn bwrpasol ac wedi'u haddurno'n dda, ac yn cynnwys pyllau geni.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod bydwraig profiad y claf yn yr uned i gydgyssylltu a sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed a'i gynrychioli wrth wneud penderfyniadau.

Cadarnhaodd y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd fod gwasanaeth myfyrio ar enedigaethau ar gael i unrhyw fenyw a'i phartner sydd wedi rhoi genedigaeth yn BIPBC, sy'n rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau o wasanaethau mamolaeth a myfyrio arnynt.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod trafodaethau am y cyfnod esgor, genedigaeth, meddyginiaethau lleddfu poen a dewisiadau bwydo yn cael eu dogfennu ar y cyfan. Dywedodd aelod o'r staff:

"...Mae'r menywod a'u teuluoedd yn cael eu trin â llawer o barch, ac fel arfer, maent yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal, gan gynnwys ar adegau pan efallai na fydd y dewisiadau gofal yn cael eu hystyried yn ddewis gorau..."

Yn ystod yr arolygiad, cododd rhai o'r staff bryderon nad oedd y tîm obstetrig yn sicrhau bod menywod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gofal (cydsyniad). Cafodd yr adborth hwn ei ailadrodd yn rhai o'r sylwadau a wnaed yn yr holiadur staff, sydd wedi'u rhannu'n uniongyrchol ag arweinwyr yr uned famolaeth. Trafodwyd cydsyniad a gofal â dwy fenyw yn yr uned. Dywedodd y ddwy eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal roeddent wedi ei gael yn y gymuned ac yn yr ysbyty. **Rhaid i'r bwrdd iechyd ymateb i'r sylwadau a wnaed gan aelodau o'r staff fel rhan o'r arolygiad a sicrhau bod pob menyw yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg, a'u risgiau a'u manteision, cyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth ganddi.**

Roedd nifer o fydwagedd arbenigol yn yr uned i gefnogi teuluoedd yr oedd angen cymorth ychwanegol neu arbenigol arnynt. Gwnaethom siarad â'r fydwraig iechyd meddwl amenedigol, a oedd yn rhan o'r gyfarwyddiaeth iechyd meddwl yn hytrach na'r gyfarwyddiaeth menywod. Roedd hyn yn golygu bod ei hamser yn cael ei warchod i gefnogi bydwagedd yn ystod cyfnodau o aciwtedd uchel yn yr adran famolaeth. Gwelsom fod llwybrau gofal unigol a llwybrau gofal ychwanegol ac eiriolaeth i fenywod ag anawsterau yn y meysydd hyn a meysydd eraill.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn barod iawn i helpu a'u bod yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

Cafwyd sylwadau cymysg gan y staff mewn perthynas â darparu gofal amserol. Dim ond hanner y staff a gwblhaodd yr holiadur oedd yn cytuno eu bod yn gallu bodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, ond cadarnhaodd tua thri chwarter y staff eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i'r cleifion. Rhannwyd crynodeb o'r adborth o'r arolwg staff ag arweinwyr yr uned. **Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar adborth y staff mewn perthynas â gofal amserol a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.**

Dywedwyd wrthym y gallai menywod yn y cyfnod esgor gael meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol, a chadarnhaodd yr obstetregwyr fod meddyginiaethau lleddfu poen ar gael i fenywod ar y ward esgor bob awr o'r dydd drwy'r anesthetyddion penodedig ar ddyletswydd. Roedd opsiynau priodol hefyd i ddarparu meddyginiaethau lleddfu poen pe bai'r anesthetydd y ward esgor yn y theatr.

Cadarnhaodd llawer o'r staff, ar bob lefel, y gwnaethom siarad â nhw fod problemau'n codi weithiau pan fydd cyfnodau o aciwtedd uchel, a gan mai uned fach ydyw, bod hyn yn gallu cael effaith fwy sylweddol ar lwythi gwaith ar y pryd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion rhai o'r cleifion a oedd yn dangos oedi cyn rhoi gofal amserol a chlinigol briodol o ganlyniad i amrywiaeth o faterion, gan gynnwys argaeledd y brif theatr obstetrig. Trafododd yr adolygydd cymheiriaid yr achos hwn â'r tîm obstetrig ar y safle, a chafodd yr achos hwn ei adolygu gan dîm amlddisgyblaethol er mwyn trafod manylion yr achos a sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu llif cleifion a phrofiad cleifion a'u gwella, yn enwedig i'r rhai hynny y mae angen gofal obstetrig mewn theatr arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom nodi bod llawer o'r staff yn siarad Cymraeg a chlywsom yr iaith yn cael ei siarad drwy gydol yr arolygiad. Roedd yr aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" i ddangos hynny. Dywedodd menywod a phobl a oedd wedi rhoi genedigaeth wrthym eu bod wedi cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd rhai fod y cynnig rhagweithiol o ofal drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gofal.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer menywod a theuluoedd nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod dwy set o nodiadau yn dangos bod yr angen am wasanaeth cyfieithu wedi'i gadarnhau ar adeg trefnu'r apwyntiad, ond nid oedd unrhyw gofnod yn cadarnhau bod y gwasanaeth hwn wedi'i ddefnyddio.

Er mwyn sicrhau bod menywod yn deall popeth ac wedi rhoi cydsyniad, dylid defnyddio gwasanaethau cyfieithu ffurfiol pan fo angen er mwyn lleihau risgiau cyfathrebu. At hynny, wrth edrych ar gofnod o ddigwyddiad yn ymwneud â menyw yr oedd Saesneg yn iaith ychwanegol iddi, nodwyd nad oedd cyfieithydd wedi'i ddefnyddio. Fodd bynnag, roedd y digwyddiad hwn wedi'i categoreiddio'n ddigwyddiad lle "nad oedd modd gwneud dim."

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a wneir o wasanaethau cyfieithu ar gyfer y menywod hynny y mae eu hangen arnynt a sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i'r menywod a'r teuluoedd hynny y mae eu hangen arnynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried cynnal adolygiad o ddigwyddiadau lle nad Cymraeg / Saesneg oedd iaith gyntaf yr unigolyn ac ailystyried a ellid bod wedi eu categoreiddio'n wahanol.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwnaethom edrych ar wybodaeth ar-lein y bwrdd iechyd, gan gynnwys yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-2028, a oedd yn cadarnhau ei ymrwymiad i ofal iechyd teg.

Dywedodd pob un o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth a gwblhaodd yr holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, nad oeddent wedi wynebu unrhyw achos o wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei

ddefnyddio ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Gwnaethom gyfarfod â thîm o staff amrywiol a gwelsom fod hyfforddiant ar amrywiaeth a chydaddoldeb yn orfodol i bob aelod o'r staff, gyda lefelau cydymffurfiaeth uwchlaw 85%.

Roedd ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi hygrych a mynediad gwastad yn ogystal â choridoriau llydan yn yr uned er mwyn sicrhau bod modd i bawb eu defnyddio'n hwylus.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd rhai prosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau i iechyd a diogelwch. Cawsom grynodedig o Gofrestr Risgiau y Gwasanaeth Menywod, dyddiedig mis Chwefror 2025. Roedd hwn yn nodi'r risgiau yn yr uned pan gynhaliwyd yr adolygiad diwethaf, dyddiad yr adolygiad nesaf a sgoriau Coch, Oren a Gwyrdd. Gwnaethom hefyd edrych ar y ddogfennaeth ar Datix a oedd yn ymwneud â'r risgiau. Gwnaethom nodi bod rhai o'r risgiau a nodwyd yn ystod y broses arolygu wedi'u cofnodi ar y gofrestr risgiau.

Roedd dwy theatr ar y ward esgor ar gyfer achosion obstetrig. Dywedwyd wrthym fod genedigaethau drwy doriad cesaraidd dewisol yn cael eu cynnal yn un o'r theatrau, ac nad oedd yr ail, sef y theatr gynorthwyol, yn cael ei defnyddio'n aml a'i bod wedi'i lleoli ym mynedfa'r brif theatr obstetrig.

Roedd y theatr obstetrig gyntaf yn lân, yn fawr ac yn addas at y diben. Wrth edrych ar yr ail theatr gynorthwyol, gwnaethom nodi bod materion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Mae'r ystafell yn fach ac mae'n anodd darparu gofal ar sail theatr obstetrig. Roedd yn ymddangos bod y theatr hon yn cael ei defnyddio at ddibenion storio. Yn ein barn ni, nid oedd y theatr hon yn addas at y diben.

Gwnaethom nodi bod y gofrestr risgiau a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar Datix wedi'u codi'n ddiweddar (Chwefror 2025) mewn perthynas â'r defnydd o'r ail theatr gynorthwyol. Dywedodd y staff wrthym fod pryderon yn ymwneud â'r ail theatr obstetrig gynorthwyol wedi'u mynegi ers sawl blwyddyn. Wrth edrych ar y ddogfennaeth yn ymwneud â'r ail theatr obstetrig gynorthwyol ar Datix, roedd yn ymddangos ei bod yn anaddas at y diben ac yn cael ei defnyddio at ddibenion storio. Dywedodd rhai aelodau o'r staff fod menywod yn cael eu rhoi mewn ciw i ddefnyddio'r brif theatr. Gallai oedi cyn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ail theatr nad yw'n addas at y diben effeithio ar y gallu i ddarparu gofal amserol i fenywod y mae angen gofal brys arnynt mewn theatr obstetrig. Ni allai rhai o'r arweinyddion clinigol a'r rheolwyr bydwreigiaeth gadarnhau a oedd yr ail theatr wedi'i rhestru ar gofrestr risgiau yr uned.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gofrestr risgiau yn cael ei diweddarau mewn modd amserol i gofnodi risgiau yn y gwasanaeth yn gywir a'u lliniaru.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg ar gyfer addasrwydd yr ail theatr obstetrig gynorthwyol a gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod trefniadau

atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, bod cynllun y theatr yn galluogi gofal obstetrig brys effeithiol a bod y menywod y mae angen iddynt gael gofal obstetrig mewn theatr yn cael gofal amserol mewn theatr ddiogel sy'n addas at y diben.

Gwnaethom edrych ar ddogfen yn ymwneud â'r broses uwchgyfeirio, Rheoli Pwysau yn ystod Argyfwng, a gallai'r staff gadarnhau'r broses y byddent yn ei dilyn yn ystod cyfnodau o lefelau aciwtedd uchel. Dywedodd y staff wrthym y byddai Datix hefyd yn cael ei defnyddio i uwchgyfeirio'r achosion hyn. Nid oedd y ddogfen yn nodi manylion yn ymwneud â defnyddio'r ail theatr ac rydym yn argymhell y dylid ei diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn deall yn glir pryd y dylid defnyddio'r ail theatr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg effeithiol wedi'u cynnal a bod camau lliniaru effeithiol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r prosesau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ail theatr obstetrig gynorthwyol er mwyn sicrhau gofal theatr obstetrig brys diogel, effeithiol ac amserol. Rhaid i bolisi/canllawiau clir gael eu rhannu mewn perthynas ag uwchgyfeirio mewn achosion pan fo angen ymyriad mewn theatr ar ail argyfwng obstetrig.

Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff a'r arweinwyr yn yr adran fod rhai heriau a risgiau yn ymwneud â'r Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth bresennol. Mae'r ardal yn gweld menywod sy'n bodloni meini prawf BSOTS (System Frysbenno Obstetrig Symptom-benodol Birmingham) a menywod y mae angen gofal wedi'i gynllunio arnynt, e.e. menywod y mae angen asesiad cyn llawdriniaeth arnynt neu y mae angen monitro eu pwysedd gwaed. Mae dwy fydwraig yn gwasanaethu'r ardal. Ni chaiff galwadau ffôn eu cofnodi a chânt eu cymryd yn yr ardal glinigol. Gall hyn achosi heriau i fydwragedd sy'n rheoli nifer o fenywod gwahanol yn ogystal â darparu cyngor clinigol a brysbenno dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod 93% o fenywod yn cael eu brysbenno o fewn 15 munud.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth er mwyn sicrhau bod pob menyw sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y canlynol

- gwahanu gweithgarwch dewisol a brys
- gwahanu'r broses frysbenno dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gyda chlinigydd penodedig ar gyfer brysbenno dros y ffôn
- cofnodi galwadau
- diffinio proses ffurfiol ar gyfer cleifion nad ydynt yn mynychu ar ôl cael cyngor bod angen iddynt gael eu gweld yn yr Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch menywod a babanod

- cwblhau cofnod ar Datix pan fydd menywod yn rhyddhau eu hunain o'r ysbyty a nodi themâu o ran menywod sy'n rhyddhau eu hunain o'r ysbyty ac nad ydynt yn mynychu.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion un fenyw lle y nodwyd y dylai'r llwybr sepsis fod wedi'i sbarduno. Fodd bynnag, roedd y nodiadau'n dangos nad oedd cais wedi'i wneud am samplau gwaed ac nad oedd gwrthfotigau mewnwythiennol wedi'u rhoi. Roedd hyn yn groes i ganllawiau'r bwrdd iechyd ar sepsis, felly ni chafodd y llwybr ei ddilyn. Dywedodd staff y ward esgor wrthym fod 'proses sgrinio sepsis rannol' yn dod yn fwy cyffredin a'u bod yn poeni nad dyma'r dull rheoli cywir. Nid oeddent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt pan fyddant yn codi pryderon am hyn. Cafodd Canllawiau'r Gyfarwyddiaeth ar y Llwybr Gofal Sepsis (gan gynnwys asesiadau risg) eu hadolygu ym mis Hydref 2022, a byddant yn cael eu hadolygu nesaf ym mis Hydref 2025. Mae'r ddogfen hon yn gynhwysfawr ac ar gael i bob aelod o staff yr uned famolaeth i roi arweiniad a lliniaru risgiau, gan fod sepsis yn parhau i fod yn risg i iechyd a bywyd menywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yr uned, gan gynnwys y rheolwyr a'r arweinwyr, yn ymwybodol o'r canllawiau a'r asesiadau risg cysylltiedig a'r camau gweithredu gofynnol pe bai llwybr sepsis yn cael ei sbarduno.

Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod trosglwyddo'r staff meddygol a chyfarfod trosglwyddo'r bydwragedd. Roedd proses drosglwyddo feddygol ar waith ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth a gofal cynenedigol. Nid oedd elfen yn ystod genedigaeth y trefniadau trosglwyddo yn cynnwys y cleifion hynny y mae angen ysgogi'r cyfnod esgor ar eu cyfer yn ddigonol, nac yn adlewyrchu statws cleifion ar y ward gynenedigol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth/ddogfennaeth i'w gwneud yn bosibl i oruchwylio a diweddarau statws cleifion er mwyn rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol. **Ymdriniwyd â'r mater yn ymwneud â'r broses drosglwyddo feddygol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) i'r adroddiad hwn.**

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob yr ardaloedd i gleifion yn lân yr olwg, yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Dywedodd pob un o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth a gwblhaodd holiadur a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn credu bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynt, gwelsom fod yr ail theatr obstetrig gynorthwyol yn anniben a'i bod yn cael ei defnyddio i storio cyfarpar yn ôl pob golwg.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a wneir o'r ail theatr obstetrig gynorthwyol fel storfa a sicrhau bod unrhyw gyfarpar nad yw'n hanfodol yn cael ei storio'n briodol er mwyn gwella'r trefniadau atal a rheoli risgiau (gweler yr adran Rheoli Risg am welliannau pellach sy'n gysylltiedig â'r ail theatr obstetrig gynorthwyol).

Gwnaethom hefyd nodi bod drysau cypyrddau pren yn yr ystafelloedd geni ar y ward esgor. Roedd tolciau yn rhai o'r drysau pren ac roeddent mewn cyflwr gwael. Roedd deunydd y cypyrddau hyn a'r tolciau ynddynt yn ei gwneud hi'n anodd eu dihalogi. Oherwydd lleoliad y cypyrddau hyn, mae risg y gall hylifau'r corff dasgu arnynt. Mae'r ffaith bod deunydd y cypyrddau yn golygu na ellir eu dihalogi'n effeithiol yn creu risg o ran atal a rheoli heintiau.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau yr eir i'r afael â'r anawsterau o ran glanhau'r gwaith pren yn yr ystafelloedd esgor fel bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn noeth o dan y penelin a gwelsom dechnegau hylendid dwylo da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned. Gwnaethom edrych ar archwiliadau hylendid dwylo a oedd yn dangos mai anaml yr oedd archwiliad cyfan (o'r dechrau i'r diwedd) yn cael ei gwblhau, ac roedd data ar goll yn rhai o'r adrannau yn yr archwiliadau a gwblhawyd. Er bod y canlyniadau ar yr hyn a gwblhawyd yn dangos cydymffurfiaeth o 100%, roedd y ffigwr hwn yn seiliedig ar archwiliadau anghyflawn. **Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r broses ar gyfer archwiliadau hylendid dwylo er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau'n llawn.**

Diogelu plant ac oedolion

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau diogelwch cynhwysfawr ar waith ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau bod teuluoedd a babanod yn ddiogel. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bws staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad drwy'r system intercom.

Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth o ymarfer herwydio babanod a oedd wedi cael ei gynnal yn gynharach eleni. Roedd tystiolaeth o rannu adborth a dysgu gwersi er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y babanod yn yr adran.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol, a chadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom siarad â'r fydwraig diogelu sy'n rhan o dîm diogelu'r bwrdd iechyd. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol yn gweithio yn yr uned yn ystod yr arolygiad, pan gafodd gweithdrefnau anarferol eu cydgysylltu a'u rhoi ar waith i sicrhau diogelwch baban. Roedd y gweithdrefnau hyn wedi'u cynllunio'n dda, a chawsant eu rhoi ar waith yn effeithiol yn ôl pob golwg, gan darfu cyn lleied â phosibl ar yr uned.

Roedd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y prosesau a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r gwiriadau a'r prosesau monitro dyddiol y mae'n ofynnol eu cynnal ar gyfer dyfeisiau a chyfarpar meddygol gan gynnwys dyfeisiau adfywio a diffibrilwyr. Gwelsom fod y gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau a'u cofnodi ar bapur yn bennaf. Clywsom fanylion gwiriadau yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfod trosglwyddo'r ward esgor.

Gwelsom gyfarpar safonol ym mhob ystafell, gan gynnwys cyffiau aml dro, thermomedrau tympanig a sganwyr Doppler. Roedd yn ymddangos bod digon o gyfarpar, ond gwnaethom nodi bod diffyg lle storio. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff bydwreigiaeth y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oedd cyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael iddynt allu rhoi gofal i'r cleifion. Cadarnhawyd hyn yn yr arolwg staff, lle dywedodd llai na hanner y staff fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith (26/56).

Roedd hyn yn peri risg pe na ellid cynnal arsylwadau prydlon mewn modd amserol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiadur:

"...Mae stoc a chyfarpar yn aml yn broblem hefyd gan fod eitemau'n brin ac, weithiau, nid ydynt ar gael am ddyddiau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn darparu gofal amserol ac effeithiol a gall wneud y tasgau symlaf yn anodd iawn..."

Dywedodd aelod arall o'r staff wrthym:

"Rydym yn aml yn rhedeg allan o gyfarpar/dogfennau hanfodol fel cymhorthion sonig, sticeri cardiotocograffi..."

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y rhoddir system fwy cadarn ar waith ar gyfer monitro, storio ac olrhain cyfarpar.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y systemau a'r broses ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar siartiau meddyginiaeth a oedd wedi'u cwblhau'n briodol. Gwelsom fod enwau a stampiau dealladwy yn cael eu defnyddio gan amlaf.

Gwelsom fod meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu storio a'u rhoi yn ddiogel ac yn briodol. Gwnaethom edrych ar gofnodion ar gyfer gwiriadau tymheredd yr oergell feddyginiaeth a gwelsom fod gwiriadau dyddiol ar waith.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd aelodau'r uwch-dîm arwain sicrwydd i ni fod archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a rhoesant dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Gwelsom dystiolaeth o'r cynllun archwilio clinigol sydd ar waith ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar archwiliadau clinigol cenedlaethol. Gwnaethom hefyd edrych ar dystiolaeth o archwiliadau haen dau a haen tri cynhwysfawr a oedd yn ymdrin â phethau penodol yn yr uned famolaeth. Ar y cyfan, gwnaethom nodi dull strwythuredig o gynnal archwiliadau clinigol a oedd yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a rhaglenni cenedlaethol.

Maeth a hydradu

Gwelsom bryd bwyd amser cinio yn cael ei weini ac roedd y bwyd i'w weld yn flasu ac yn cael ei weini'n brydlon. Dywedodd y menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth wrthym fod dewis da. Roedd y broses o drefnu a chydlynw amseroedd bwyd yn effeithlon. Roedd gofynion maeth a hylif y cleifion wedi'u dogfennu'n dda yn y cofnodion gofal cleifion a welsom.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar wyth set o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, roedd safon y cofnodion yn gymysg. Gwnaethom nodi rhai meysydd o ymarfer cadarnhaol mewn perthynas â chadw cofnodion bydwreigiaeth. Roedd hyn yn cynnwys dull clir a strwythuredig o gwblhau cofnodion ysgrifenedig ym maes gofal cynenedigol ac ôl-enedigol.

Gwelsom fod angen cryfhau'r broses o gofnodi adolygiadau obstetrig a chynlluniau gofal. Roedd pob un o'r wyth set o gofnodion a welsom yn dangos bod rhai gwendidau ym maes gofal yn ystod genedigaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o ddogfennaeth yn cael eu cynnal yn gadarn a bod gwersi'n cael eu dysgu o'r canfyddiadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd ymatebion y staff yn gymysg. Er bod y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion (47/56), roedd nifer llai yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a roddir gan eu hysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu (41/55), neu y byddent yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith (32/55). Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r uned hon yn fach ac, o ganlyniad, mae aelodau'r tîm yn agos iawn ac fel arfer yn cydweithio'n dda iawn, gan flaenoriaethu gofal cleifion bob amser, yn aml cyn eu llesiant eu hunain. Gall cyfnod o lwyth gwaith uchel a diffyg staff gael effaith fawr ar y tîm bach sydd gennym, gan arwain at fwy o straen ar y staff, oriau gwaith hirach, diffyg seibiannau ac, o ganlyniad, mwy o absenoldeb staff. Gall diffyg adnoddau cyffredin, fel papur a phapurau ar gyfer profion gwaed, a dibyniaeth ar gopïau wedi'u llungopïo o lwybrau angenrheidiol effeithio ar lwythi gwaith a morâl y staff.”

“Y cleifion yw'r brif flaenoriaeth bob amser, ac maen nhw bob amser yn ddiogel ac yn cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau/cydsynio ac yn eu cynlluniau gofal eu hunain. Ar y llaw arall, nid yw'r staff yn cael eu cymryd o ddifrif ac nid yw ein llesiant yn brif flaenoriaeth. Rydym yn aml wedi blino'n lân ac mae'r lefelau staffio yn teimlo'n anniogel ar adegau.”

“Mae'r gwaith tîm yma yn ddigymar ac mae pob un ohonom yn cydweithio'n dda i roi'r gofal gorau i'n menywod.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Gwnaethom gyfarfod ag arweinwyr bydwreigiaeth ymroddedig a chefnogol a oedd yn ymwybodol o feysydd o ymarfer da yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Gwnaethant rannu nifer o enghreifftiau o ffyrdd y maent wedi ymgysylltu â'r staff i ddarparu gwelededd ac arweinyddiaeth er mwyn datblygu'r uned ymhellach. Gwelsom dîm amlddisgyblaethol effeithiol, croesawgar a chyfeillgar yn ystod yr

arolygiad, a dywedodd y staff wrthym fod gwaith tîm yn un o nodweddion cadarnhaol yr uned hon.

Gwnaed y sylw canlynol yn un o'r holiaduron staff:

“Mae gwaith tîm fy nghydweithwyr clinigol yn eithriadol, ac yn ystod shifftiau prysur iawn neu gyfnodau o brinder staff difrifol, maen nhw wedi bod yn arbennig am gyd-dynnu er mwyn cadw'r menywod a'u teuluoedd yn ddiogel. Yn anffodus, nid yw hyn yn cael ei werthfawrogi gan yr uwch-reolwyr yn aml.”

Cadarnhaodd y staff fod rhai newidiadau wedi'u gwneud i arweinyddiaeth bydwreigiaeth a bod gan rolau arwain mwy newydd bellach gyfrifoldeb ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod hyn wedi cael effaith negyddol ar ba mor weladwy yw'r arweinwyr yn yr uned. At hynny, cafwyd adborth cymysg gan y staff ynglŷn â'r uwch-arweinwyr. Dywedodd rhai wrthym nad yw'r uwch-arweinwyr bob amser yn weladwy, ac nid oedd y rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus bod eu pryderon a oedd yn cael eu huwchgyfeirio yn cael eu cymryd o ddifrif.

Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr ymatebion yn yr holiadur staff a nododd fod y rhan fwyaf o'r staff (35/56) yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn weladwy, a dywedodd ychydig dros hanner nad yw'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn ddigon effeithiol (33/55).

Mae crynodeb dienw o'r arolwg staff wedi'i rannu â'r bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl themâu a sylwadau sy'n deillio o'n harolwg staff, ac ymateb iddynt.

Yn ystod yr arolygiad, rhoddwyd dogfennaeth i ni a oedd yn cadarnhau bod tua 33% o'r canllawiau a'r polisiau obstetrig wedi dyddio. Mae hyn yn peri risg i'r gwasanaeth a chadarnhaodd y ddogfennaeth a welwyd fod y mater hwn wedi'i gofnodi ar gofrestr risgiau'r adran.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu cynllun cadarn i sicrhau y caiff yr holl ganllawiau a pholisiau eu diweddarau a'u rhannu mewn modd amserol .

Gwnaethom edrych ar adroddiadau, cofnodion ac agendâu a oedd yn dangos bod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Ymhlith yr adroddiadau yr edrychwyd arnynt roedd Adroddiadau Llywodraethu Integredig (chwarterol) a oedd yn cynnwys manylion digwyddiadau a themâu i'w cyflwyno i Fwrdd Gwasanaethau Gogledd Cymru. Edrychwyd hefyd ar gylch gorchwyl a sampl o gofnodion Cyfarfod Safle Gorllewinol y Gyfarwyddiaeth Menywod. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod mesurau ar waith i wella atebolrwydd trefniadau llywodraethu a gwella gwasanaethau.

Gellid nodi themâu, tueddiadau, camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd o'r adroddiadau hyn ac adroddiadau eraill a ddarparwyd yn ystod yr arolygiad; gallai'r staff a oedd yn ymwneud ag adolygiadau o ddigwyddiadau hefyd eu disgrifio. Fodd bynnag, ni allai'r staff a oedd yn gweithio yn yr ardaloedd clinigol gadarnhau themâu, camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau pan ofynnwyd iddynt. At hynny, ni allai arweinwyr meddygol y bwrdd iechyd chwaith gadarnhau themâu, tueddiadau a gwersi a ddysgwyd penodol o ddigwyddiadau o safbwynt meddygol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella cyfranogiad pob aelod o'r staff yn y broses adolygu digwyddiadau. Mae'n hanfodol cynnwys pob aelod o'r staff, gan gynnwys arweinwyr meddygol a staff interim lle y bo'n briodol, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o themâu a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

Gwnaethom siarad â'r staff sy'n adolygu cofnodion digwyddiadau Datix yn ddyddiol, gan nodi bod yr ymarfer amserol hwn yn gadarnhaol. Roedd presenoldeb aelodau o'r staff yn yr adolygiadau hyn yn cynnwys rheolwyr y ward, metronau, y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Risg Mamolaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yr Obstetregydd Arweiniol ar gyfer Risgiau yn cael ei gynnwys fel mater o drefn yn yr adolygiad dyddiol hwn. O ganlyniad, gall digwyddiadau sy'n ymwneud â thorri'r ddyletswydd gofal o safbwynt meddygol arwain at oedi yn y broses ddysgu heb gyfranogiad meddygol priodol.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarw pwy sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau o gofnodion digwyddiadau dyddiol ar gyfer yr adran a sicrhau bod y broses adolygu yn cynnwys yr Obstetregydd Arweiniol ar gyfer Risgiau.

Pan ofynnwyd sawl digwyddiad difrifol oedd yn destun ymchwiliad, dywedwyd wrthym fod 18. Gwnaethom edrych ar achos diweddar a fu'n destun adolygiad cyflym lle na chafodd unrhyw gamau gweithredu ar unwaith eu nodi. Gwnaethom ofyn am gofnod o gamau gweithredu a oedd yn agored a heb eu cwblhau, ond nid oedd modd darparu'r wybodaeth hon. Cadarnhaodd y staff nad yw camau gweithredu yn cael eu cofnodi ar Datix ar hyn o bryd, a'u bod yn cael eu cofnodi ar wahân ar daenlen Excel. At hynny, gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â marwolaeth amenedigol a oedd yn dangos bod y farwolaeth wedi'i hadolygu'n allanol gan gydweithwyr yn yr un bwrdd iechyd, ond mewn lleoliad gwahanol. Mae'n arfer gorau i sicrhau bod y digwyddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan glinigwyr y tu allan i'r bwrdd iechyd lle y gwnaethant ddigwydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r ffordd y caiff camau gweithredu eu rheoli mewn perthynas ag adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd eu rhoi ar waith yn gyflym yn dilyn digwyddiadau difrifol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digwyddiadau difrifol y mae angen eu hadolygu'n allanol yn cael eu hadolygu'n allanol gan bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd ac y caiff camau gweithredu ac argymhellion eu rhoi ar waith yn gyflym.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau gweithio amllddisgyblaethol effeithiol ac o aelodau o staff ar bob lefel yn cydweithio er mwyn ceisio dod o hyd i atebion arloesol o dan amgylchiadau a oedd weithiau'n anodd iawn. Roedd llawer o'r bydwagedd a'r meddygon y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu cydweithwyr tîm ac yn yr holiadur staff, roedd y rhan fwyaf o aelodau o'r staff (38/56) yn cytuno y gellid dibynnu ar eu rheolwr llinell uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym eu bod wedi cael arfarniad yn seiliedig ar werthoedd yn ystod y 12 mis diwethaf, a gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfiaeth o 87% ym mis Ionawr 2025.

O ran lefelau staffio, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad fod heriau penodol yn ymwneud â recriwtio meddygon i weithio yn yr uned. Dywedwyd wrthym fod recriwtio yn broblem oherwydd y lleoliad. Roedd mwy o feddygon locwm yn cael eu defnyddio yn yr uned hon, ond dywedodd yr arweinwyr wrthym fod mwy o feddygon dan hyfforddiant ar gael o ganlyniad i'r gwasanaethau oncoleg gynaeolegol sydd wedi'u leoli yn Ysbyty Gwynedd. Yn ystod yr arolygiad, roedd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar gyfer swyddi gwag yn y tîm meddygol, a'r gobaith oedd y byddai'r bylchau'n cael eu llenwi.

Cadarnhaodd nifer o sylwadau'r staff fod cydberthynas waith gadarnhaol rhwng y meddygon a'r bydwagedd. Fodd bynnag, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym am yr heriau o ran capasiti staff obstetrig, a oedd yn arbennig o broblematig y tu allan i oriau ac, yn aml, yn arwain at oedi. Mynegodd rhai o'r staff bryder nad oedd staff locwm yn cwblhau cyfnod sefydlu, a'u bod wedyn yn gyfrifol am gadw'r uned yn ddiogel. Cadarnhaodd yr arolwg staff rai o'r heriau mewn perthynas â staff obstetrig a swyddi gwag.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff locwm a staff banc sy'n gweithio yn yr adran, yn cwblhau cyfnod sefydlu priodol.

Roedd system rota staff ar waith, a gwelsom rotas bydwreigiaeth a oedd yn ymddangos yn briodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod yr uned yn cydymffurfio â Birth Rate Plus ar gyfer staff bydwreigiaeth, ond teimlai nifer o'r staff fod cyfnodau o lefelau staff bydwreigiaeth isel a chymysgedd sgiliau amhriodol yn yr uned. Adlewyrchwyd hyn yn eu sylwadau wyneb yn wyneb ac yn yr holiadur staff. Cadarnhaodd yr arweinwyr bydwreigiaeth fod swydd wag Band 6, a hynny mewn ymateb i bryderon yn ymwneud â chymysgedd sgiliau. Cadarnhaodd data ar absenoldebau misol ar gyfer mis Ionawr gyfradd salwch o 6.28%, cyfradd swyddi gwag bydwreigiaeth o 6.1% a chyfradd swyddi gwag meddygol o 17.8%. Gwnaethom nodi bod rota bydwaig ar alwad aciwt ar waith i gefnogi cyfnodau o aciwtedd uchel a phrinder staff. Cadarnhaodd y staff a'r arweinwyr fod hyn yn gadarnhaol ac wedi'i groesawu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrto ar adborth gan staff yn ymwneud â phryderon am lefelau staffio isel a mynd i'r afael ag unrhyw achosion.

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i olrhain lefelau hyfforddiant, cyfraddau arfarniadau a lefelau staffio, ac i reoli unrhyw fylchau. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod lefelau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff bydwreigiaeth yn dderbyniol, gyda chyfradd gydymffurfiaeth o 89% ar gyfer PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetrig Ymarferol) a 71% ar gyfer GAP (Hyfforddiant Protocol Asesu Twf). Roedd lefelau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff meddygol yn isel, sef 14% ar gyfer Cynnal Bywyd Sylfaenol, 44% ar gyfer hyfforddiant GAP, a 62% ar gyfer hyfforddiant CTG.

Ymdriniwyd â'r mater yn ymwneud â lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom bosteri gwybodaeth yn yr uned a oedd yn cynnwys cod QR i fenywod roi adborth. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei rannu â'r staff. Gwelsom nifer o gardiau Diolch wedi'u harddangos yn yr uned. Nodwyd yn benodol fenter Greatix a roddwyd ar waith gan y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwreigedd. Rhoddwyd y fenter hon ar waith i annog adborth cadarnhaol i staff sydd wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau wrth eu gwaith. **Roedd hyn yn arfer canmoladwy.**

Dywedwyd wrthym fod grŵp Lleisiau Mamolaeth ar waith i roi adborth i'r arweinwyr ar brofiadau menywod.

Dywedodd yr arweinwyr fod grŵp y staff ar Facebook yn dangos bod staff yr uned yn hapus ac yn falch.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth fod ganddi bolisi drws agored i'r staff roi adborth a'i bod yn cwrdd â'r Undebau, Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd a phartneriaid eraill i sicrhau ei bo dyn ymwybodol o unrhyw bryderon ymhlith y tîm o staff.

Yn ystod yr arolygiad, roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn y practis. Roedd yn amlwg bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr adran bod gweithgareddau ymchwil a gwella ansawdd yn flaenoriaeth yn yr uned. Rhannwyd enghraifft yn ymwneud â lleihau nifer yr heintiau clwyfau llawfeddygol yn dilyn toriadau cesaraidd. Roedd y gwaith hwn yn ymwneud â safoni pwythau a dulliau cau ac arweiniodd at lai o heintiau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Famolaeth Ysbyty Gwynedd

Dyddiad yr arolygiad: 18-20 Chwefror 2025

Canfyddiadau

Canfu AGIC fod proses drosglwyddo feddygol ar waith ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth a gofal cynenedigol. Fodd bynnag, nid yw elfen yn ystod genedigaeth y broses drosglwyddo (feddygol) yn cynnwys y cleifion hynny y mae angen ysgogi eu cyfnod esgor yn ddigonol, ac nid yw'n adlewyrchu statws cyfredol cleifion ar y ward gynenedigol ychwaith. Nid oedd unrhyw dystiolaeth/dogfennaeth ffurfiol ar waith i alluogi proses ddigonol o oruchwylio statws cleifion yn feddygol a'i rannu er mwyn rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch cleifion yn effeithiol ac mewn modd amserol.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses drosglwyddo feddygol rhwng gofal cynenedigol a gofal yn ystod genedigaeth: - Yn effeithiol - Yn cael ei chofnodi'n glir ac yn rheolaidd - Yn cael ei chyfleu yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo. Bydd hyn yn sicrhau bod pob menyw yn yr uned yn cael ei blaenoriaethu'n effeithiol ac mewn modd amserol er mwyn cynnal diogelwch mamau a babanod heb eu geni.	Diogel	Mae'r broses drosglwyddo feddygol leol wedi'i hadolygu. Mae dogfen ddiwygiedig wedi'i datblygu ar gyfer proses drosglwyddo obstetrig amlddisgyblaethol i gynnwys y canlynol: • Rhestr o bob aelod o staff sy'n bresennol • Statws uned Famolaeth a Newyddenedigol • Cleifion unigol mewn ystafelloedd geni (mewn fformat SBAR) • Gweithgarwch toriadau cesaraidd dewisol • Menywod risg uchel ar y ward cynenedigol a'r ward ôl-enedigol • Menywod sy'n aros i gael eu trosglwyddo i ystafelloedd geni	Arweinydd Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol	31 Mawrth 2025 3 Mawrth 2025 3 Mawrth 2025

		Menywod ar wardiau eraill yn cynnwys ITU, HDU a wardiau allgymorth.		3 Mawrth 2025
		Mae proses ar waith i archifo'r ddogfennaeth drosglwyddo ddiwygiedig yn unol â phrosesu llywodraethu gwybodaeth.	Rheolwr Gweithredol Arweiniol	21 Mawrth 2025
		Mae Bwrdd Trosglwyddo newydd wedi'i gaffael i adlewyrchu'r gofynion diwygiedig yn y ddogfen drosglwyddo obstetrig amlldisgyblaethol.	Rheolwr Gweithredol Arweiniol/Metron	Parhaus
		Caiff cydymffurfiaeth â'r broses drosglwyddo hon ei monitro yn y cyfarfodydd Perfformiad Integredig Gorllewinol ac adroddir arni i Uwch-dîm Arwain y Gwasanaeth Menywod, QSE, Grŵp Dysgu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd a'r Grŵp Cyflawni Gweithredol Ansawdd.	Cyfarwyddwr Clinigol	17 Mawrth 2025
		Caiff y ddogfen drosglwyddo obstetrig amlldisgyblaethol ei chyflwyno yn y ddwy Uned Famolaeth arall er mwyn safoni prosesau.	Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru	

Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant gorfodol y staff. Dangosodd y wybodaeth gyfradd gydymffurfiaeth isel â hyfforddiant ymysg rhai obstetregwyr, a oedd yn cynnwys Cynnal Bywyd Sylfaenol (BLS) - 14%, y Protocol Asesu Twf (GAP) - 44%, a Cardiotocograffeg (CTG) - 44%.

Felly, ni chawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff sy'n darparu gofal obstetrig wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i gynnal diogelwch y mamau a'r babanod yn eu gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau: Bod obstetregwyr yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol a'i gwblhau mewn modd amserol yn Ysbyty Gwynedd ac ym mhob rhan o wasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd.	Diogel	Mae adolygiad o gydymffurfiaeth â hyfforddiant meddygol wedi'i gwblhau. Caiff y staff eu cefnogi a'u rhestru i fynychu sesiynau hyfforddiant fel mater o flaenoriaeth er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth. Mae sesiynau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ychwanegol wedi'u trefnu ar gyfer y staff. Cynhelir dwy sesiwn ar 28 Mawrth a dwy sesiwn ar 4 Ebrill. Mae pob clinigydd nad yw wedi cwblhau hyfforddiant GAP wedi'i nodi ac mae'r ddolen e-ddysgu wedi'i hanfon ato er mwyn ymgymryd â'r hyfforddiant erbyn 31 Mawrth 2025. Mae diwrnod astudio ar Oruchwyllo Babanod yn ystod Genedigaeth wedi'i drefnu ar gyfer 31/3/25 yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r meddygon y mae angen iddynt gwblhau'r hyfforddiant wedi'u rhestru i'w fynychu. Yn unol â'r gofynion hyfforddiant, caiff y staff meddygol hefyd eu cefnogi i fynychu cyfarfodydd adolygu achosion CTG wythnosol. Bydd yn ofynnol i bob aelod newydd o staff meddygol (gan gynnwys staff locwm/asiantaeth) sy'n ymuno â'r gwasanaeth ddarparu eu cofnod hyfforddiant gorfodol o'u lleoliad blaenorol.	Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol	Wedi'i gwblhau (26 Chwefror 2025) 31 Mawrth 2025 4 Ebrill 2025 31 Mawrth 2025 31 Mawrth 2025 11 Ebrill 2025 Parhaus

Bod asesiad risg yn cael ei gwblhau, a bod mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o niwed a chynnal diogelwch mamau a babanod hyd nes y bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant wedi gwella i lefel briodol a diogel.		Caiff unrhyw fylchau mewn hyfforddiant a nodir eu cynnwys yn eu cyfnod sefydlu cyn dechrau ymarfer clinigol.	Cyfarwyddwr Clinigol	Parhaus
		Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ei monitro yng nghyfarfodydd Perfformiad Integredig Ysbyty Gwynedd ac adroddir arni i Uwch-dîm Arwain y Gwasanaeth Menywod, QSE, Grŵp Dysgu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd a'r Grŵp Cyflawni Gweithredol Ansawdd.	Cyfarwyddwr Clinigol	Parhaus
		At hynny, mae hyfforddiant meddygol gorfodol wedi'i gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfod misol yr adran lle bydd y cadeirydd yn monitro lefelau cydymffurfiaeth. Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau i gydymffurfiaeth.		Wedi'i gwblhau
		Mae asesiad risg cynhwysfawr wedi'i gwblhau sy'n cynnwys camau penodol i liniaru unrhyw risgiau posibl nes y bydd cydymffurfiaeth wedi gwella i lefel briodol a diogel (uwchlaw cyfradd gydymffurfiaeth o 85%).	Cyfarwyddwr Clinigol	
		Caiff yr asesiad risg wedi'i gwblhau ei gyflwyno i Grŵp Rheoli Risg y Gwasanaeth Menywod ar 10 Mawrth 2025 i'w gynnwys ar Gofrestr Risgiau y Gwasanaeth, a gaiff ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd yn erbyn y llwybrau hyfforddiant a chydymffurfiaeth gofynnol.	Cyfarwyddwr Clinigol	10 Mawrth 2025

				Cyfarwyddwr Clinigol	
--	--	--	--	-------------------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Mrs Geeta Kumar

Teitl swydd: Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru

Dyddiad: 27 Chwefror 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Famolaeth Ysbyty Gwynedd

Dyddiad yr arolygiad: 18-20 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd yr ystafell brofedigaeth yn yr uned a arweinir gan fydwragedd weithiau'n cael ei defnyddio ar gyfer esgor. Nid gwely ysbyty oedd y gwely yn yr ystafell hon ac nid oedd cyflenwad ocsigen drwy bibell ar gael yn yr ystafell. Mae risg na fydd menywod yn y cyfnod esgor yma	Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg a gwneud yn siŵr bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau y caiff argyfyngau meddygol a wynebwr gan fenywod sy'n defnyddio'r ystafell brofedigaeth ar gyfer esgor eu rheoli mewn modd amserol.	Safon - Diogel	Mae'r ystafell brofedigaeth wedi'i symud yn ddiweddar o'r ward esgor i leoliad mwy priodol yn yr uned a arweinir gan fydwragedd. Diben yr ystafell yw cynnig amgylchedd 'cartref oddi cartref' a galluogi partneriaid i aros dros nos. Ni chaiff yr ystafell brofedigaeth ei defnyddio ar gyfer menywod yn y cyfnod esgor fel mater o drefn. Caiff pob menyw ei hasesu a chynigir man geni priodol iddi. Caiff pob menyw ei hasesu cyn cael ei derbyn a'i datgan yn ffit	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025

	yn cael gofal amserol mewn argyfwng meddygol.			yn feddygol i ddychwelyd i'r ystafell ar ôl geni. Ar achlysuron prin pan fydd cyfnod esgor menyw yn dechrau'n ddigymell, mae troli wedi'i leoli y tu allan i'r ystafell ac mae cyflenwad cludadwy o ocsigen, cyfarpar sugno ac Etonox ar gael. Bydd y gwasanaeth yn cynnal asesiad risg er mwyn nodi'r mesurau lliniaru priodol i'w rhoi ar waith mewn achosion prin pan fydd menyw yn y cyfnod esgor yn yr ystafell brofedigaeth.	Bydwraig Profedigaeth	31 Mai 2025
2.	Cododd rhai o'r staff bryderon nad oedd y tîm obstetrig yn sicrhau bod menywod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu gofal (cydsyniad).	Rhaid i'r bwrdd iechyd ymateb i'r sylwadau a wnaed gan aelodau o'r staff fel rhan o'r arolygiad a sicrhau bod pob menyw yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg, a'u risgiau a'u manteision, cyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth ganddi.	Safon - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Caiff canfyddiadau'r adroddiad eu rhannu â'r tîm obstetrig gan roi pwyslais ar ddewisiadau bar sail gwybodaeth a sicrhau bod y trafodaethau hyn yn cael eu dogfennu yn y cofnodion mamolaeth. Bydd y gwasanaeth yn rhoi mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion	Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	31 Mai 2025 13 Mehefin 2025

				(PREMS) Cymru Gyfan ar waith, drwy Civica, a fydd yn galluogi gwaith monitro manwl mewn perthynas â phrofiadau cleifion ac yn galluogi proses feincnodi genedlaethol. Dangosodd system adborth cleifion Civica sgôr gyffredinol o 9/10 ar gyfer C4. Y sgôr ar gyfer adborth ar deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal oedd 88%. Cafodd stori claf a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio gwasanaethau cyfieithu ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd allweddol ym mis Chwefror 2025. Rhoddir cardiau BRAIN (Manteision, Risgiau, Dewisiadau Amgen, Greddf, Gwneud Dim) i bob menyw wrth drefnu apwyntiad ac mae'r Llwybrau Gofal	Bydwraig Ymgynghorol/Metron Profiad Cleifion Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol/Bydwraig Ymgynghorol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 11 Gorffennaf 2025
--	--	--	--	---	--	--

				Integredig a ddatblygwyd/adolygwyd yn ddiweddar yn cynnwys yr adnodd. Trafodir yr adnodd yn ystod sesiynau hyfforddiant gorfodol a gynhelir gan Fydwraig Ymgynghorol (bydd pob bydwraig wedi cwblhau'r hyfforddiant hen erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025) ac yn ystod sesiynau goruchwyllo grŵp. Archwiliad Haen 2 BIPBC yw'r archwiliad cydsyniad a gomisiynir yn flynyddol gan Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol. Archwiliad ar gyfer 2023 oedd yr archwiliad diwethaf a gwblhawyd gan y gwasanaeth, a gyflwynwyd i'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol. Nid yw archwiliad 2024 wedi'i gomisiynu gan Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol ar hyn o bryd.	Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau ar gyfer 2023
--	--	--	--	--	--	-------------------------------------

3.	Dyweddodd hanner y staff a gwblhaodd yr holiadur staff wrthym nad oeddent yn gallu ymdopi â'r gofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar adborth y staff mewn perthynas â gofal amserol a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.	Safon - Diogel	Cynhelir cyfarfodydd staff Band 7 yr uned famolaeth yn fisol, gan roi cyfle i'r staff gwrdd â'r uwch-reolwyr a chodi pryderon yn briodol. Cymerir cofnodion ym mhob cyfarfod a chofnodir camau gweithredu. Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael eu defnyddio fel llwyfan cyfathrebu i roi diweddariadau ar brosiectau gwella parhaus a chanlyniadau. Mae Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd wrthi'n gweithio gyda Bydwragedd Newydd Gymhwyso i'w helpu i flaenoriaethu eu llwyth gwaith. Yn ychwanegol at hyn, bydd Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd yn cynnig sesiynau i bob bydwaig drwy sesiynau goruchwyllo grŵp er mwyn mynd i'r afael	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol/Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus Wedi'i gwblhau 1 Hydref 2024 ac yn barhaus
----	---	---	----------------	--	---	--

â phrosesau rheoli amser, blaenoriaethu llwyth gwaith ac uwchgyfeirio.

Mae pecyn sefydlu cadarn ar waith ar gyfer pob aelod newydd o staff er mwyn sicrhau ei fod yn cwblhau'r holl hyfforddiant cyn dechrau ei rôl fel un o gyflogeion BIPBC a chefnogi proses bontio ddi-dor.

Mae sesiynau ymgysylltu amlddisgyblaethol wedi'u cynnal yn ddiweddar ar bob safle gyda chymorth y Gweithlu Corfforaethol. Diben y sesiynau hyn oedd nodi'r hyn oedd yn gweithio'n dda a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, a oedd yn cynnwys blaenoriaethu llwyth gwaith. Rhoddwyd adborth cychwynnol i Uwch-dîm Arwain y Gwasanaeth Menywod. Caiff y sesiwn olaf ei chynnal gyda'r tîm cymunedol ym mis Mehefin.

Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol

Wedi'i gwblhau
1 Mai 2025

Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol

26 Medi 2025

				Yna, rhoddir adborth i bob tîm gan nodi themâu, tueddiadau ac argymhellion. Mae Tîm y Shifft wedi'i roi ar waith. Bwriedir i'r ymyriad hwn safoni sgrym ar ddechrau pob shifft cyn y cyfarfod trosglwyddo clinigol er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth a gwaith tîm. Mae hyn yn galluogi'r tîm amlddisgyblaethol i nodi blaenoriaethau, trafodaethau rheolaidd, a chynlluniau. Mae hyn yn un o fentrau gwella cenedlaethol y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol. Bydd y gwasanaeth yn cynnal y broses gyflwyno a chydymffurfiaeth drwy archwiliadau parhaus.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 30 Rhagfyr 2024 a gwaith monitro cydymffurfiaeth parhaus
4.	Roedd rhai o'r cofnodion a	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu llif cleifion a	Safon - Diogel	Mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu achosion o oedi yn	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	31 Mai 2025

	welsom yn dangos oedi posibl cyn rhoi gofal yn ystod genedigaeth.	phrofiad cleifion a'u gwella, yn enwedig i'r rhai hynny y mae angen gofal obstetrig mewn theatr arnynt.		ystod ail gam y cyfnod esgor a bydd yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion llawn i Fforwm Gofal Yn Ystod Genedigaeth Gogledd Cymru ym mis Mai 2025 ynghyd â chynlluniau gwella priodol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gofnodi unrhyw achos o oedi yn ystod ail gam y cyfnod esgor ar Datix. Caiff pob achos ei adolygu a chaiff y canfyddiadau eu rhannu â'r tîm obstetrig drwy'r fforymau gofal cynenedigol ac yn ystod genedigaeth priodol. Mae'r gwasanaeth wedi diweddaru'r broses drosglwyddo er mwyn rhoi trosolwg cyfannol o'r uned gyfan. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau'r adnodd aciwtedd	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrso Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrso Gynaecolegol	1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus Wedi'i gwblhau 31 Mawrth 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
--	--	--	--	---	---	--

				a ddefnyddir ar y ward esgor bob 4-6 awr er mwyn blaenoriaethu'r llwyth gwaith a rheoli'r galw yn briodol. Mae Obstetregydd Ymgynghorol ar alwad bob awr o'r dydd, saith diwrnod yr wythnos, i roi cyngor a chymorth. Caiff pob achos a uwchgyfeirir ei reoli yn unol â'r broses ar gyfer ceisio barn glinigol amgen, trefniadau uwchgyfeirio'r uned a phrosesau BIPBC Bydd y gwasanaeth yn ailddosbarthu'r gweithdrefnau priodol. Defnyddir y ffurflenni ACE (adnodd atgoffa'r staff i roi gwybod am ddigwyddiadau) ar bob un o'r tri safle i gefnogi'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau.	Cyfarwyddwr Clinigol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrso Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
5.	Roedd dwy o'r setiau o gofnodion	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd a	Safon - Diogel	Mae'r gwasanaeth wrthi'n ymgymryd â chymwyseddau	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrso Gynaecolegol	16 Mehefin 2025 a gwaith

	cleifion a welsom yn dangos y dylai gwasanaethau cyfieithu ffurfiol fod wedi'u defnyddio, ond nad oedd y defnydd o'r gwasanaethau hyn yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.	wneir o wasanaethau cyfieithu ar gyfer y menywod hynny y mae eu hangen arnynt a sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i'r menywod a'r teuluoedd hynny y mae eu hangen arnynt. Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried cynnal adolygiad o ddigwyddiadau lle nad Cymraeg / Saesneg oedd iaith gyntaf yr unigolyn ac ailystyried a ellid bod wedi eu categorio'n wahanol.		Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gymuned. Caiff hyn ei roi ar waith yn yr ardal cleifion mewnol ym mis Mai 2025. Mae'r gwasanaeth wrthi'n diweddarau ei ddogfennaeth er mwyn sicrhau bod dewisiadau iaith wedi'u hasesu, eu cofnodi a'u trafod a bod cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu ym mhob achos drwy gydol y beichiogrwydd. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio WITS (Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru) i ddarparu gwasanaethau cyfieithu i'n cleifion 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Caiff y staff eu hatgoffa am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae system adborth Civica yn rhoi gwybodaeth am ddewisiadau menywod.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	monitro parhaus 16 Mehefin 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
--	--	---	--	---	---	--

				Bydd y gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio system adborth Civica i fonitro dewisiadau iaith er mwyn llywio datblygiadau a gwelliannau i wasanaethau.		Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus
6.	Gwnaethom nodi bod rhai risgiau hirsefydlog i ofal amserol wedi'u hychwanegu at gofrestr risgiau'r adran ym mis Chwefror 2025.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gofrestr risgiau yn cael ei diweddarau mewn modd amserol i gofnodi risgiau yn y gwasanaeth yn gywir a'u lliniaru.	Safon - Diogel	Caiff risgiau yn y gwasanaeth eu rheoli yn unol â Gweithdrefn Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd (RM02). Caiff y staff eu hatgoffa y dylid codi risgiau a chynnal asesiad risg mewn modd amserol. Caiff pob risg ei hadolygu yng Nghyfarfod Rheoli Risgiau y Gwasanaeth Menywod a chyflwynir diweddariadau i'r tîm corfforaethol fel y bo angen yn unol â RM02.	Rheolwr Cyffredinol Rheolwr Cyffredinol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro misol
7.	Roedd yr ail theatr obstetrig (gynorthwyol) yn cael ei defnyddio at ddibenion storio ac roedd yn anniben.	Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg ar gyfer addasrwydd yr ail theatr obstetrig gynorthwyol a gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod trefniadau atal a rheoli heintiau	Safon - Diogel	Mae'r holl gyfarpar yn y theatr yn hanfodol ac mae'r Clinigydd Arweiniol ym maes Anesthesia Obstetrig wedi cadarnhau hyn. Bydd y gwasanaeth yn cynnal adolygiad atal a rheoli heintiau o'r ail theatr	Rheolwr Arweiniol	1 Mai 2025

		effeithiol ar waith, bod cynllun y theatr yn galluogi gofal obstetrig brys effeithiol a bod y menywod y mae angen iddynt gael gofal obstetrig mewn theatr yn cael gofal amserol mewn theatr ddiogel sy'n addas at y diben.		bresennol er mwyn nodi unrhyw risgiau a'u lliniaru. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas ag addasrwydd yr ail theatr obstetrig. Mae'r asesiad a'r risg ddilynol wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risgiau'r Gwasanaeth (ID5493) gyda sgôr o 12. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â chydweithwyr yn yr adran Ystadau a Chynllunio i ystyried ymarferoldeb dewisiadau amgen ar gyfer ail theatr a/neu addasiadau sydd eu hangen. Pan fydd y gwaith ar ymarferoldeb wedi dod i ben, bydd angen nodi cyllid i'w cyflawni.	Rheolwr Arweiniol Rheolwr Arweiniol	1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus 30 Ebrill 2026
8.	Nid oedd dogfen Rheoli Pwysau yn ystod Argyfwng y bwrdd iechyd yn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg effeithiol wedi'u cynnal a bod camau	Safon - Diogel	Mae gan y gwasanaeth brotocol ar gyfer agor ail theatr a rheoli achosion yn y theatr obstetrig ar yr un	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025

	nodi manylion penodol yn ymwneud â defnyddio'r ail theatr.	lliniaru effeithiol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r prosesau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ail theatr obstetrig er mwyn sicrhau gofal theatr obstetrig brys diogel, effeithiol ac amserol. Rhaid i bolisi/canllawiau clir gael eu rhannu mewn perthynas ag uwchgyfeirio mewn achosion pan fo angen ymyriad mewn theatr ar ail argyfwng obstetrig.		pryd. Caiff y protocol hwn ei rannu â'r tîm obstetrig.		
9.	Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff a'r arweinwyr yn yr adran fod rhai heriau a risgiau yn ymwneud â'r Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth bresennol. Roedd hyn yn cynnwys cynllun yr uned, sut y caiff galwadau eu	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth er mwyn sicrhau bod pob menyw sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn cael gofal diogel ac effeithiol. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y canlynol	Safon - Diogel	Mae Pennaeth Bydwreigiaeth wrthi'n gweithio gyda'r tîm trawsnewid ar broses gwella sy'n meincnodi Gwasanaethau Asesu Gofal Mamolaeth yn erbyn Papur Ymarfer Da RCOG ar Frysbenneu Gofal Mamolaeth (2023). Mae'r gwasanaeth wedi rhoi system safonol ar waith -	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	14 Gorffennaf 2025 1 Mai 2025

brysbennu, a'r broses o asesu menywod y mae angen gofal wedi'i gynllunio arnynt a'r rhai y mae angen gofal brys arnynt.	- gwahanu gweithgarwch dewisol a brys - gwahanu'r broses frysennu dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gyda chlinigydd penodedig ar gyfer brysbennu dros y ffôn - cofnodi galwadau - diffinio proses ffurfiol ar gyfer cleifion nad ydynt yn mynychu ar ôl cael cyngor bod angen iddynt gael eu gweld yn yr Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch menywod a babanod - cwblhau cofnod ar Datix pan fydd menywod yn rhyddhau eu		BSOTS (System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol Birmingham) sy'n helpu i sicrhau proses asesu a blaenoriaethu gyson ac effeithiol. Mae archwiliadau ffôn wedi'u cwblhau ac mae cyfnod o beidio â brysbennu dros y ffôn wedi'i dreialu ar un o'r tri safle (Canolog) yng Ngogledd Cymru. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno i Fwrdd y Menywod ym mis Mai 2025 a gweithredir ar unrhyw argymhellion yn lleol ar y safle. Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r opsiynau o ran brysbennu dros y ffôn ymhellach pan fydd rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru wedi'i rhoi ar waith. Bydd y gwasanaeth yn rhannu'r polisi yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer mynd ar drywydd menywod nad	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	31 Mai 2025 31 Mawrth 2026
--	--	--	--	---	--

		hunain o'r ysbyty a nodi themâu o ran menywod sy'n rhyddhau eu hunain o'r ysbyty ac nad ydynt yn mynychu.		ydynt yn mynychu apwyntiadau cynenedigol a menywod a/neu fabanod lle na chaiff mynediad ei sefydlu yn ystod y cyfnod cynenedigol (Mat 22) ac yn sicrhau y caiff data eu casglu a'u cofnodi drwy'r dangosfwrdd mamolaeth. Tynnir sylw staff yr Uned Asesu Cleifion Allanol Mamolaeth ei bod yn ofynnol iddynt gofnodi cleifion sy'n rhyddhau eu hunain o'r uned fel digwyddiad ar Datix. Caiff hyn hefyd ei ychwanegu at y ffurflenni ACE (adnodd atgoffa'r staff i roi gwybod am ddigwyddiadau) a ddefnyddir ar hyn o bryd ar y wardiau esgor a'r wardiau mamolaeth ar y tri safle.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	31 Mai 2025 31 Mai 2025
10.	Dangosodd y cofnodion cleifion a welsom a'r sgysiau a gawsom	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yr uned, gan gynnwys y rheolwyr a'r	Safon - Diogel	Caiff gwybodaeth am y canfyddiadau ei rhannu â'r tîm amlldisgyblaethol.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	31 Mai 2025

	â'r staff nad oedd y llwybr sepsis yn cael ei roi ar waith fel mater o drefn pan fyddai'n cael ei sbarduno.	arweinwyr, yn ymwybodol o'r canllawiau a'r asesiadau risg cysylltiedig a'r camau gweithredu gofynnol pe bai llwybr sepsis yn cael ei sbarduno.		Mae sepsis wedi'i gynnwys yn rhaglen PROMPT ar gyfer y flwyddyn hon o fis Medi 2024 i fis Gorffennaf 2025 ac mae wedi'i gynnwys am y pedair blynedd diwethaf. Mae dogfen ganllaw wedi'i hailddosbarthu a'i hychwanegu at bob briff diogelwch yn yr ardaloedd clinigol er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol Cymru ar gyfer Gofal Mamolaeth wrthi'n cael ei rhoi ar waith ar bob un o'r tri safle obstetrig aciwt yng Ngogledd Cymru sy'n helpu i nodi ac uwchgyfeirio claf sy'n gwaethygu'n ddifrifol fel rhan o Gynllun Gwella'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Bydwraig Ymgynghorol	31 Mai 2025 16 Medi 2025
11.	Roedd drysau cypyrddau pren yn yr ystafelloedd geni ar y ward esgor yn golygu	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau yr eir i'r afael â'r anawsterau o ran glanhau'r gwaith pren yn yr ystafelloedd esgor fel	Safon - Diogel	Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm atal a rheoli heintiau a'r tîm ystadau i ddatblygu achos busnes i fynd i'r afael a	Ystadau	26 Mehefin 2025

	nad oedd modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol.	bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol.		materion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau, gan gynnwys y drysau cypyrddau pren a nodwyd. Caiff cyllid ei gadarnhau.		
12.	Roedd y dogfennau archwilio hylendid dwylo a welwyd yn yr uned yn dangos mai anaml yr oedd archwiliadau'n cael eu cwblhau yn llawn.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r broses ar gyfer archwiliadau hylendid dwylo er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau'n llawn.	Safon - Diogel	Mae Rheolwr y Ward wedi sicrhau hyfforddiant priodol i'r staff sy'n cynnal archwiliadau hylendid dwylo. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gynnal archwiliadau wythnosol i sicrhau bod y ffurflen yn cael ei chwblhau yn ei chyfanrwydd a bod adborth yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Atal Heintiau Lleol bob mis.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025 Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025
13.	Dywedodd llai na hanner y staff a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer digonol i wneud eu gwaith.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y rhoddir system fwy cadarn ar waith ar gyfer monitro, storio ac olrhain cyfarpar.	Safon - Diogel	Bydd y gwasanaeth yn llunio rhestr stoc ar gyfer pob ardal glinigol ac yn mabwysiadu adolygiad misol o'r holl stoc er mwyn sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro ac olrhain cyfarpar.	Rheolwr y Ward	31 Mai 2025

				Mae'r gwasanaeth wedi uwchraddio Ystafell 4 ar y Ward Esgor i greu Storfa gyda systemau stacio pwrpasol. Mae'r Storfa ar Ward Llifon (Ardal Cleifion Mewnol) hefyd wedi'i huwchraddio gyda systemau stacio priodol er mwyn cynnal lefelau digonol o stoc a chyfarpar.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
14.	Roedd rhai o'r cofnodion a welsom yn dangos bod rhai gwendidau wedi'u nodi ym maes gofal yn ystod genedigaeth.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o ddogfennaeth yn cael eu cynnal yn gadarn a bod gwersi'n cael eu dysgu o'r canfyddiadau.	Safon - Diogel	Caiff archwiliad o gofnodion mamolaeth ei gwblhau gan bob bydwraig bob blwyddyn fel rhan o'i hyfforddiant gorfodol. Mae'r Goruchwylwyr Bydwagedd hefyd yn cynnal rhaglen archwilio dogfennau dreigl. Mae cofnodion meddygol obstetrig yn rhan o archwiliad blynyddol Haen 2 BIPBC a gwblheir gan bob aelod o staff meddygol ar bob safle. Mae archwiliad 2024-25 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.	Metron Profiad Cleifion Metron Profiad Cleifion Arweinydd Archwilio ar gyfer Obstetreg	Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025 a gwaith monitro parhaus Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus drwy'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol

				Mae arweinwyr yr uned a arweinir gan fydwagedd yn cwblhau archwiliad misol o Lwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Arferol drwy'r dangosfwrdd mamolaeth.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 a gwaith monitro parhaus
15.	Rhoddodd rhai o'r staff sylwadau yn yr holiadur ynglŷn â heriau yn yr uned. (rhannwyd crynodeb o'r adborth â'r bwrdd iechyd),	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl themâu a sylwadau sy'n deillio o'n harolwg staff, ac ymateb iddynt.	Safonau - Diogel, Effeithiol, Effeithlon, Amserol	Mae camau priodol wedi'u cymryd yn unol â pholisïau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol BIPBC gyda chymorth gan y Tîm Corfforaethol, Pobl a Diwylliant.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025
16.	Ni allai'r staff a oedd yn gweithio yn yr ardaloedd clinigol gadarnhau themâu, camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau pan ofynnwyd iddynt. At hynny, ni allai arweinwyr meddygol y bwrdd iechyd chwaith gadarnhau	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella cyfranogiad pob aelod o'r staff yn y broses adolygu digwyddiadau. Mae'n hanfodol cynnwys pob aelod o'r staff, gan gynnwys arweinwyr meddygol a staff interim lle y bo'n briodol, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o themâu a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.	Safon - Diogel	Mae 'Bwrdd Thema'r Mis' wedi'i leoli yn yr ystafell drosglwyddo ar y ward esgor ac mae'n cynnwys themâu a thueddiadau pwysig a gwersi pwysig a ddysgwyd. Caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu'n fisol drwy gylchlythyrau a gaiff eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Grŵp Ansawdd, Diogelwch	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Arweinydd Risg a Llywodraethu	Wedi'i gwblhau 30 Ebrill 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 ac yn barhaus

themâu, tueddiadau a gwersi a ddysgwyd penodol o ddigwyddiadau o safbwynt meddygol.			a Phrofiad Menywod. Rhennir y cylchlythyr drwy gyfarfodydd safle, cyfarfodydd risg, Fforwm Gofal Yn Ystod Genedigaeth Gogledd Cymru, Fforwm Gofal Cynenedigol Gogledd Cymru a chyfarfodydd safle lleol. Caiff ei rannu hefyd drwy hyb goruchwyllo clinigol caeëdig. Caiff adroddiad chwarterol ar wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ei baratoi. Rhennir yr adroddiad drwy gyfarfodydd safle, cyfarfodydd risg, Fforwm Gofal Yn Ystod Genedigaeth Gogledd Cymru, Fforwm Gofal Cynenedigol Gogledd Cymru a chyfarfodydd safle lleol. Caiff pob cylchlythyr ac adroddiad dysgu chwarterol ei lanlwytho i dudalen Llywodraethu'r Gwasanaeth Menywod ar fewnwyd Betsi Cadwaladr.	Arweinydd Risg a Llywodraethu Arweinydd Risg a Llywodraethu Arweinydd Risg a Llywodraethu	31 Mai 2025 31 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
--	--	--	---	--	--

				Mae hyfforddiant Datix wedi'i gynnwys yn rhaglen PROMPT ac mae hyn yn annog y staff i gael adborth ar ddigwyddiadau a gofnodir ar Datix. Caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa bod ganddo'r cyfle, wrth roi gwybod am ddigwyddiad, i nodi fel rhan o'r adroddiad a yw'n dymuno cael adborth drwy e-bost. Mae briffiau diogelwch ym mhob ardal glinigol ac mae'r rhain yn cynnwys gwersi a ddysgwyd, rhybuddion diogelwch a'r holl wybodaeth y mae angen tynnu sylw'r staff ati ar bob shift. Caiff yr adroddiadau terfynol a lunnir ar ymchwiliadau dysgu ac adolygiadau o farwolaethau amenedigol eu rhannu â'r	Arweinydd Risg a Llywodraethu Bydwragedd Arwain Clinigol/Rheolwr y Ward Arweinydd Risg a Llywodraethu	ac yn barhaus 31 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 ac yn barhaus Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 ac yn barhaus
--	--	--	--	---	--	---

				staff sy'n ymwneud â'r achos.		
17.	Nid oedd yr adolygiad dyddiol o ddigwyddiadau Datix yn cynnwys Ostetregydd Arweiniol ar gyfer Risgiau / unrhyw fewnbwn obstetrig.	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau pwy sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau o gofnodion digwyddiadau dyddiol ar gyfer yr adran a sicrhau bod y broses adolygu yn cynnwys yr Obstetregydd Arweiniol ar gyfer Risgiau.	Safon - Diogel	Caiff digwyddiadau Datix eu hadolygu'n ddyddiol gan y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r Obstetregydd Arweiniol ar gyfer Risgiau yn ymwneud yn drwm â'r broses adolygu ond ni fyddai'n gallu adolygu pob digwyddiad yn ddyddiol. Y rheolwr llinell priodol sy'n gyfrifol am fynd ar drywydd pob cam gweithredu y cytunwyd arno.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrso Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
18.	Nid oedd y ddogfennaeth yn ymwneud ag adolygiad cyflym o ddigwyddiad yn nodi camau gweithredu ar unwaith. Caiff unrhyw gamau gweithredu o adolygiadau eu cofnodi ar wahân	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r ffordd y caiff camau gweithredu eu rheoli mewn perthynas ag adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol er mwyn sicrhau y caiff camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd eu rhoi ar waith yn gyflym	Safon - Diogel	Ar y cyfan, caiff pob cam gweithredu ei gwblhau cyn i'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth gymeradwyo'r adroddiad yn derfynol. Caiff pob cam gweithredu sy'n deillio o adolygiadau dysgu cychwynnol,	Arweinydd Llywodraethu Clinigol/Bydwraig Llywodraethu Clinigol Arweinydd Llywodraethu Clinigol/Bydwraig Llywodraethu Clinigol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025

				Lle y bydd baban wedi cael gofal gan ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd arall, caiff y sefydliad hwnnw ei wahodd i fod yn rhan o'r adolygiad cychwynnol a'r prif adolygiad a fydd yn cynnwys meddyg ymgynghorol.		Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
19.	Staffio Rhannwyd rhai heriau yn ymwneud â recriwtio staff meddygol parhaol i'r uned. Gwnaed rhai sylwadau am ddiffyg cyfnod sefydlu ar gyfer staff dros dro.	Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff locwm a staff banc sy'n gweithio yn yr adran, yn cwblhau cyfnod sefydlu priodol.	Safon - Diogel	Bydd y gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff meddygol. Caiff bylchau mewn rotas eu llenwi gan staff locwm a staff ychwanegol ar shifftiau er mwyn cynnal cydymffurfiaeth o 100% Mae'r gwasanaeth wedi rhoi rhaglen sefydlu gadarn ar waith i gefnogi staff sy'n dechrau mewn rolau newydd ac i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r cymwyseddau gofynnol cyn dechrau.	Rheolwr Arweiniol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
20.	Rhannodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr	Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar adborth gan staff yn ymwneud â	Safon - Effeithiol	Mae'r lefelau staffio bydwreigiaeth yn	Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025

arolygiad a'r rhai a gwblhaodd yr holiadur staff bryderon yn ymwneud â lefelau isel o staff bydwreigiaeth ac obstetrig (er bod y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau bod y lefelau staffio bydwreigiaeth yn cydymffurfio â Birth Rate Plus).	phryderon am lefelau staffio isel a mynd i'r afael ag unrhyw achosion.		cydymffurfio â Birth Rate Plus ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff meddygol. Caiff bylchau mewn rotas eu llenwi gan staff locwm neu staff ychwanegol ar shifftiau. Caiff statws lefelau staffio ei adolygu'n ddyddiol gan yr Uwch-dîm Arwain a'i oruchwyllo yng nghyfarfod wythnosol y Fetron. Caiff unrhyw fylchau eu llenwi gan staff ychwanegol. Caiff adolygiadau o absenoldebau oherwydd salwch eu rheoli mewn modd amserol yn unol â Pholisi Salwch ac Absenoldeb y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Clinigol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth	Wedi'i gwblhau 31 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau
--	---	--	--	--	---

				Caiff swyddi gwag Meddygol, Bydwreigiaeth a Gweithredol eu hadolygu'n wythnosol yn ystod cyfarfod Perfformiad y Gorllewin. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau arweinyddiaeth weladwy fel bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy bresenoldeb dyddiol y Fetron, ymweliadau wedi'u trefnu gan y Pennaeth Bydwreigiaeth/Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a phresenoldeb yr uwch-arweinwyr. Mae eiriolwyr llesiant staff wedi'u penodi ym mhob ardal glinigol ac mae'r rhain yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Pobl a Diwylliant y Gwasanaeth Menywod yn rheolaidd er mwyn uwchgyfeirio unrhyw bryderon o'r ardal glinigol.	Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025 Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
--	--	--	--	---	---	--

				Mae'r cyfarfodydd goruchwyllo clinigol yn canolbwyntio ar gefnogi'r staff drwy gyfnodau o aciwtedd uchel. Mae pob bydwraig yn cael o leiaf bedair awr o oruchwyliaeth glinigol bob blwyddyn. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys trafodaethau am wydnwch a strategaethau ymdopi ar gyfer sefyllfaoedd clinigol gwahanol. Caiff trafodaethau'r sesiynau yn aml eu harwain gan anghenion y staff ar y pryd. Mae Gweithdrefn Uwchgyfeirio ar gyfer Rheoli Pwysau yn ystod Argyfwng yn yr Uned Famolaeth (Mat 84) ar waith ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â DOCG 01 - Polisi BIPBC ar gyfer Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol	Wedi'i gwblhau 1 Mai 2025
--	--	--	--	--	--	--------------------------------------

--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Karen Roberts

Teitl swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth a Nyrsio Gynaecolegol DYDDIAD: 08/05/2025

K Roberts